



**CYNGOR TREF  
LLANFAIRFECHAN  
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan  
LL330AB

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF  
NOS FERCHER 23<sup>AIN</sup> O CHWEFROR 2022**

Yn bresennol: Cadeirydd: Y Faeres Penny Andow; Cyng Leena Farhat: Dirprwy Faer Gyng Christopher Jones; Cyng Laura Fielding; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Delohne Merrell; Cyng Elgan Owen

210. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod

211. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau Cyng Carol Gell; Cyng Christine Roberts; Cyng Gareth Wyn Jones  
Penderfynwyd derbyn a nodi

212. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Cyng A Hinchliff Eitem 8 Cadeirydd Pwyllgor Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan

Cyng C Jones Eitem 8 Trysorydd Pwyllgor Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan

Cyng E Owen Eitem 8 Cyswllt personol gyda'r grŵp Brownies

Cyng Penny Andow Eitem 12 fel Cadeirydd y Banc bwyd

Cyng Alun Jones Eitem 12 fel gwirfoddolwr y Banc bwyd

Cyng A Hinchliff Eitem 13 Ar Bwyllgor Cynllunio CBSC ond cadarnhaodd bod modd iddo aros yn y cyfarfod os nad yw'n gwneud sylwadau ar ei fwriad i bleidleisio Penderfynwyd derbyn a nodi

213. Derbyniodd Gyngor Tref Llanfairfechan Ddatganiad Derbyn Swydd y Cyng Leena Farhat ar gyfer Ward Lafan a chroesawodd y Cyngor y cynghorydd newydd i'r swydd. Penderfynwyd derbyn a nodi

214. Derbyniodd Gyngor Tref Llanfairfechan Ddatganiad Derbyn Swydd y Cyng Elgan Owen ar gyfer Ward Bryn a chroesawodd y Cyngor y cynghorydd newydd i'r swydd. Penderfynwyd derbyn a nodi

215. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd:

Croesawyd Andrew Wilkinson, Pennaeth Gwasanaethau'r Gymdogaeth ERF o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i'r cyfarfod i drafod prosiect Maes Parcio'r Promenâd. Bu cyflwyniad ar y cynnydd hyd yma:

Y datganiad cyntaf oedd bod hyder bod y prosiect adnewyddu yn mynd yn ei flaen. Mae'r cynlluniau cynllun cychwynnol a'r broses adeiladu yn rhoi asesiad cywir o'r costau ac fe gaiff cynllun y prosiect ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen. Yn dilyn adborth a gasglwyd mewn dau gyfarfod gyda'r Gyngor Tref, mae'r cynllun wedi'i addasu a dangoswyd cynllun drafft i'r aelodau etholedig:

1. Amlwg na fydd system un ffordd yn gweithio ac felly nid yw hyn wedi'i gynnwys
2. Palmentydd yn y maes parcio wedi'u tynnu oddi yno a mwy o lefydd parcio ar gael (cyfanswm o 140). Mae'r palmant bellach yn rhedeg ar hyd y fynedfa ac yn arwain yn syth at y promenâd i gerddwyr
3. Caiff croesfan i gerddwyr a beicwyr ei chynllunio ar gyfer yr ardal o gwmpas Caffi Seagrass
4. Mae parcio i'r anabl wedi symud at flaen y maes parcio i wneud y mwyaf o'r golygfeydd o'r car
5. Mae manau gwefru trydanol wedi'u symud i le mwy diogel wrth gysgodfan y promenâd er mwyn eu gwarchod rhag ardaloedd sy'n dioddef o lifogydd
6. Caiff grasscrete ei osod ar ochr y môr y darn o laswellt er mwyn datrys y broblem o geir yn parcio ar y glaswellt
7. Caiff celf gyhoeddus a thirlunio ei gynnwys ar gam hwyrach y cynllunio

Mae'r costau ar gyfer y prosiect yn uwch na'r disgwyl oherwydd y problemau sylweddol gyda mynediad oherwydd y bont reilffordd. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y caiff llai ei wneud. Mae'n dal i fod yn gynllun enfawr ar gyfer ail-gynllunio'r ardal (costau o hyd at £500,000) yn hytrach na dim ond ail-wynebu (costau tua £120,000).

Amserlen fel a ganlyn: Ymgyngoriad cyhoeddus ar y cynlluniau drafft ym mis Mai; Rhyddhau'r prosiect ym mis Mehefin / Gorffennaf; Medi 2022 dechrau ar y gwaith i'w gwblhau ym mis Mehefin 2023.

**Cwestiwn 1** Oes ystyriaeth wedi bod ar gyfer darpariaeth i gerbydau gwerysyla? Mae CBSC yn ymgysylltu gydag ymgynghorydd i ystyried darpariaeth i gerbydau gwerysyla ar draws y sir. Caiff ei gydnabod nad ydy'r broblem yn un all gael ei datrys yn hawdd. Buasai prosiect cerbyd gwerysyla yn gofyn am ganiatâd cynllunio ac arolwg rhanddeiliaid. Dylid hefyd nodi y byddai darpariaeth o'r fath yn cymryd lle rhai llefydd parcio. Efallai gall fod yn rhywbeth i'w ychwanegu nes ymlaen unwaith caiff strategaeth Conwy ei rhyddhau. Mae awgrym wedi bod y dylid gosod pibelli yn y llefydd parcio presennol yn barod ar gyfer unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol.

**Cwestiwn 2** Nodi nad ydy palmant gyferbyn â Seagrass i'w weld – oes cynlluniau i gywiro hyn gan fod llawer iawn o angen ar ei gyfer? Fel sydd wedi'i nodi yn flaenorol, mae angen cwblhau mwy o'r gwaith cynllunio er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cerddwyr yn yr ardal honno.

**Cwestiwn 3** gan breswyllydd. A fydd ymdrechion i rwystro beiciau modur a sgwteri rhag defnyddio'r promenâd i gerddwyr, ac a fydd llefydd wedi'u darparu ar eu cyfer yn y maes parcio? Yn sicr – dylid cynnwys llefydd parcio i feiciau modur fel nad oes rhaid iddynt ddefnyddio'r llefydd parcio mwy i geir. Efallai bydd angen gosod arwyddion er mwyn helpu i reoli'r defnydd o'r promenâd – anodd ei reoli ond byddwn yn gwneud nodyn o hyn.

**Cwestiwn 3 A** fydd y tyllau mawr yn y ffordd wrth Seagrass yn cael eu hatgyweirio fel rhan o'r cynllun? Byddant, mae'n gwneud synnwyr bod y gwaith yma yn digwydd yr un pryd â phrosiect y maes parcio.

**Cwestiwn 4 A** fydd bolardiau yn cael eu gosod ar yr ardal laswellt er mwyn rhwystro pobl rhag parcio ar yr ardal heb y grasscrete? Bydd angen rhyw fath o rwystr a gellir ei ymgorffori i mewn i'r cynllun

**Cwestiwn 5 A** oes modd defnyddio melin wynt ar gyfer y mannau gwefru trydanol? Mae cynllunwyr yn edrych ar ynni'r haul fel dewis gan fod y dechnoleg ar gael yn barod. Buasai adnoddau adnewyddadwy yn sicr yn ffordd gadarnhaol ymlaen.

**Cwestiwn 6 A** oes posibl cynnwys ffynnon ddŵr yn natblygiad y maes parcio? Buasai modd edrych ar hyn yn rhan tirlunio'r prosiect

**Cwestiwn 7 A** gaiff y ffordd at y lanfa ei chynnwys yn y gwaith ail-wynebu? Bu addewid ar hyn yn y cyfarfod diwethaf, ac mae'n gwneud synnwyr bod y gwaith yn cael ei wneud. Fodd bynnag, ni chaiff yr ardal hon ei ail-gynllunio.

**Cwestiwn 8 A** oes cynlluniau ar gyfer mynediad i gerddwyr o amgylch ardal y Towers lle mae'n tueddu i ddioddef llifogydd? Rydym ni'n gobeithio bydd y system draenio yn helpu gyda'r llifogydd yn y maes parcio, ond oherwydd ei safle, does dim modd sicrhau hyn. Mae'r rhwystrau llifogydd yn cael eu tynnu yn ystod misoedd yr haf ond efallai bydd eu hangen mewn tywydd garw neu lanw uchel.

Rydym ni'n rhagweld y bydd y mynediad i gerddwyr i'r maes parcio fel yr hyn sydd wedi'i ddisgrifio'n flaenorol. Yn sicr caiff yr holl ardal ei hystyried yn ofalus yn ystod y broses gynllunio.

**Cwestiwn 9** Efallai mai'r peth gorau ar gyfer ymylon y grasscrete fuasai gwrych yn hytrach na bolardiau oherwydd buasai'n amddiffyn yn well rhag gemau pêl ayb ac a fyddai modd newid y dalwyr beiciau fel rhan o'r prosiect? Gellir ystyried hyn yn rhan tirlunio'r prosiect.

**Cwestiwn 10 A** fydd parcio i breswylwyr dal i gael ei ystyried o fewn y prosiect?

Mae Talu ac Arddangos yn parhau i fod yn gam olaf y prosiect hwn a byddwn ni'n mynd i'r afael â pharcio i breswylwyr cyn symud ymlaen at osod unrhyw beth.

**Cwestiwn 11 A** oes modd cynnwys y gysgodfan wrth y bont droed yn y cynllun Atal Llifogydd? Mae hyn yn rhywbeth i'w drafod gyda'r tîm Atal Llifogydd ond gall fod yn bosibilrwydd

**Cwestiwn 12** Pam mai dim ond 10% o gyllid Llywodraeth Cymru sydd wedi'i geisio ar gyfer y cynllun hwn? Y gred oedd y buasai mwy na hyn yn peryglu'r holl gais am grant. Fel ac y mae, mae Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol iawn am y cais.

**Cwestiwn 13** Codwyd pryderon bod yr amserlenni hyn yn mynd y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, hefyd ydy hyn yn golygu na fydd unrhyw waith yn digwydd i gywiro ardaloedd gwaethaf y maes parcio tan fis Medi? Mae tîm y prosiect wedi cadarnhau y bydd yn gallu cwrdd ag amserlenni cytunedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynlluniau gyda'r amserlen arfaethedig. Dydyn ni ddim yn rhagweld y bydd unrhyw waith atgyweirio yn digwydd cyn y dyddiad cychwyn ym mis Medi. Nid oedd y gwaith gafodd ei gwblhau yn flaenorol yn cwrdd â'r angen ac felly bydd yr holl ganolbwynt ar gyfer y gwaith adeiladu ar gyfer yr ailgynllunio i gychwyn ym mis Medi. Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr CBSC am fynychu'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth am y prosiect.

Penderfynwyd derbyn a nodi

216. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ionawr y 12<sup>fed</sup> 2022 a Rhestr Weithredu Chwefror yr 2<sup>il</sup> 2022

Fe ddsbarthwyd y cofnodion cyn y cyfarfod ac maen nhw wedi'u nodi wedi'u darllen.

Eitem 7 Yn anffodus, methwyd y dyddiad cau ar gyfer y cais i Balas Buckingham  
Caiff y Rhestr Weithredu ei hystyried yn y cyfarfod nesaf oherwydd diffyg amser

Cynigydd Cyng N Jones Eilydd Cyng L Farhat      Yn unfrydol      Penderfynwyd derbyn a nodi

217. Derbyn ceisiadau a chymeradwyo ceisiadau grant cymunedol s 137

1. Brownies Penmaenmawr a Llanfairfechan

Nodwyd bod Brownies Penmaenmawr bellach yn cynnwys merched Llanfairfechan gan fod y grŵp wedi cyfuno. Mae Cyngor Tref Penmaenmawr yn cefnogi aelodau Penmaenmawr ac mae hwn yn gais am gyllid i gefnogi aelodau Llanfairfechan gyda'u tanysgrifiad a llawlyfrau. Cytunwyd ei fod yn achos teilwng a bu i'r aelodau etholedig gefnogi'r cais yn unfrydol. Nodwyd bod angen gwario arian ar breswylwyr Llanfairfechan yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972

Cynigydd Cyng A Hinchliffe Eilydd Cyng C Jones      Yn unfrydol      Penderfynwyd derbyn a nodi

2. Neuadd Gymunedol Llanfairfechan

Mae angen mwy o wybodaeth ar y Cyngor Tref am y cais hwn. Bu i'r Clerc atgoffa'r Cyngor bod y swyddfeydd yn y neuadd. Y Clerc i gasglu mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf. Penderfynwyd derbyn a nodi

218. Derbyn cais am gynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethwyr Pant y Rhedyn

Datganodd y Cyng Leena Farhat ddiddordeb mewn sefyll fel Llywodraethwr ysgol a chynigwyd mynd â'r cais yn ei flaen. Y Clerc i gysylltu gyda'r ysgol gyda'r manylion

Cynigydd Cyng N Jones Eilydd Cyng E Owen      Yn unfrydol      Penderfynwyd derbyn a nodi

219. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gosod arwydd digidol newydd

Gwybodaeth gefndirol: Cafodd yr arwydd digidol cymunedol ei fandaleiddio ym mis Awst a bu'n rhaid ei dynnu oddi ar y safle. Ni fu i ymchwiliadau dilynol gan yr heddlu arwain at arestio unrhyw un. Fodd bynnag, roedd CCTV yn dangos ei fod yn ymosodiad bygythiol iawn gan bobl anadnabyddus i'r gymuned a'r heddlu. Mae'r Cyngor Tref bellach wedi derbyn taliad yswiriant o £12730.80 a dyfynbris ar gyfer offer newydd (15,390.20) a chostau ymweliadau safle (£1700.00) sy'n gyfanswm o £16560.20. Gofynnodd y Clerc i'r Cyngor Tref ystyried a ddylid prynu uned newydd a'i osod yn yr un safle. Y pryder ydy y gall hyn ddigwydd eto gan nad oes modd rhoi unrhyw fesuriadau diogelwch pellach mewn lle.

Cytunodd yr aelodau etholedig nad oedd yn gwneud synnwyr i roi'r offer newydd yn ôl ar safle gaiff ei ailgynllunio yn fuan. Bu awgrym hefyd y gall y gwasanaeth hwn fod yn fwy diogel petai'n cael ei osod yn ffenestr Neuadd Gymunedol y Dref.

Penderfynwyd derbyn a nodi

220. Derbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau cymunedol sydd i ddod a chymeradwyo cynlluniau

Roedd rhestr o farchnadoedd Dydd Sul wedi'i rhannu fel a ganlyn: 20<sup>fed</sup> o Fawrth (Dathlu Llanfairfechan); 24<sup>ain</sup> o Ebrill; 22<sup>ain</sup>; o Fai; 19<sup>eg</sup> o Fehefin; 24<sup>ain</sup> o Orffennaf; 25<sup>ain</sup>; gwyliau haf Awst; Medi; 23<sup>ain</sup> o Hydref; 20<sup>fed</sup> o Dachwedd; 11<sup>eg</sup> o Ragfyr (Gwyl y Gaeaf) a'u cymeradwyo gan y Cyngor Tref. Llongyfarchiadau i Kirsty ar ddatblygu'r marchnadoedd a diolch i'r holl dîm o staff am eu gwaith yn cefnogi'r marchnadoedd. Nodwyd bod hwn wedi bod yn ddatblygiad hynod o gadarnhaol yn Llanfairfechan. Cytunwyd y dylai Llanfairfechan yn Dathlu fynd yn ei flaen ar Fawrth yr 20<sup>fed</sup> ochr yn ochr â'r prosiect Llanfairfechan yn Diolch. Bydd y Cyngor Tref hefyd yn cynnal y prosiect darlun helpa wyau mewn ffenestr ac yn prynu wyau Pasg ar gyfer y rhai fydd yn cymryd rhan yn y prosiect. Y Clerc i wirio arian y maer a rhoi gwybod a oes modd ei ddefnyddio i dalu am hyn, fodd bynnag, cytunwyd ar brynu'r wyau beth bynnag. Caiff cyfnewidfa teganau Pasg ei chynnal ar Ebrill y 12<sup>fed</sup> ac fe gaiff yr Wyau Pasg eu rhannu'r diwrnod hwnnw.

Penwythnos y Jiwbilî: Mae'r Clerc wedi casglu gwybodaeth am ddigwyddiadau Jiwbilî gan Gyngorau Tref eraill. Mae gan Benmaenmawr ddigwyddiad mawr wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener y 3<sup>ydd</sup> o Fehefin. Mae'r Pwyllgor Cyfryngau wedi cynnal ymgynghoriad ac nid yw'n glir iawn a oes cefnogaeth fawr am ddigwyddiad o'r fath yn

Llanfairfechan. Mae'n benwythnos gŵyl y banc, felly'r awgrym ydy ein bod yn cynnal cyfle i bobl ddod at ei gilydd yng Ngerddi Fictoria ar ddydd Sul y 5<sup>ed</sup> o Fehefin. O bosibl picnic tedis neu rywbeth tebyg gyda gwahoddiad i'r pwyllgor Gefeillio Trefi a Sefydliad y Merched gynnal stondin banded? Mae rhai sgysiau hefyd wedi bod gyda phwyllgor carnifal Llanfairfechan ynglŷn â digwyddiad ar y cyd. Y Clerc i edrych i mewn i'r dewisiadau hyn ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd derbyn a nodi

221. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau i ddatblygu grŵp Gwyl Cyflymder yn Llanfairfechan Roedd gwybodaeth wedi'i chylchredeg cyn y cyfarfod. Cynllun arfaethedig i lansio ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr yn y gymhorthfa PCSO gyntaf ar y 16eg o Fawrth rhwng 10-12. Y manau ffocws yn Llanfairfechan fydd tu allan i'r ddwy ysgol ond yn bennaf Pant y Rhedyn, Ffordd Penmaenmawr wrth Ben Dalar a Ffordd y Pentref. Bydd arnom ni angen o leiaf 9 gwirfoddolwr i redeg y prosiect - mae gennym ni ddau wirfoddolwr yn barod. Y Clerc i weithredu ar hyn.

Penderfynwyd derbyn a nodi

222. Derbyn Adolygiad Ffyrdd Cymru: adroddiad cychwynnol y panel gyda gwybodaeth ar brosiect Cyffordd yr A55.

Roedd y ddogfen hon wedi'i chylchredeg yn flaenorol dros e-bost. Mae'r ddolen gyswllt ar gyfer yr adroddiad yma.

Mae argymhellion y panel fel a ganlyn:

'Ni ddylid cefnogi'r cynllun i fynd yn ei flaen ar ei wedd bresennol. Er nad ydym ni'n argymhell y dylid parhau gyda'r cynllun ar ei wedd bresennol, rydym ni yn ystyried bod achos ar gyfer ymyrraeth ar yr A55, er mwyn cyflawni amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net.

Mae'r llwybr Teithio Llesol arfaethedig mewn perygl oherwydd y newid hwn mewn cyfeiriad a gall fod yn rhywbeth y bydd aelodau etholedig eisiau lobio i Lywodraeth Cymru. Mae Cynghorwyr Sir mewn cyfathrebiad gyda'r mater hwn.

Penderfynwyd derbyn a nodi

223. Derbyn a chymeradwyo taliadau presennol ar gyfer Chwefror 2021

1. Ad-daliad Canva (taliad ôl-ddyddiedig ) £107.88
2. Trwydded TENS marchnad 20fed o Chwefror 2022 (taliad ôl-ddyddiedig) £21.00
3. Mel Owen atgyweirio goleuadau'r MUGA (taliad ôl-ddyddiedig) £132.00
4. Banc bwyd Llanfairfechan £3000
5. Baner Marchnad Sional £30.00
6. British Gas (goleuadau MUGA) £250.34
7. Les llungopiwr Siemens £362.40

Nododd y Clerc ei bod hi'n amser adnewyddu'r llungopiwr. Mae cytundeb newydd wedi'i ddsbarthu os ydym am ei arwyddo. Mae'r cwmni wedi darparu gwasanaeth ardderchog ac erbyn hyn yn cynnig llungopiwr newydd gyda chyfleuster ychwanegol i gael copïau lliw heb lawer o newid i'r gost. Cytunwyd i'r Clerc arwyddo'r cytundeb newydd a pharhau gyda'r broses les.

8. Arian parod £100

Cynigydd Cyng A Hincliff Eilydd Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

224. Trafod materion cynllunio

0/49357 51 Cae America Llanfairfechan LL33 0SJ – roedd hwn yn amrywiad syml yn y cynllunio. Doedd dim sylwadau a gofynnodd yr aelodau etholedig bod yr ymgeisydd yn dilyn cyngor swyddogion CBSC.

225. Derbyn gohebiaeth - (yn ystod pandemig covid-19 caiff y rhan fwyaf o ohebiaeth ei rhannu dros e-bost)

1. Cais gan breswlydd ynghylch synhwyro am fetel. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda CBSC am gyngor ar eu hoffer ond heb dderbyn ymateb eto. Doedd yr aelodau etholedig ddim yn gefnogol o ganiatáu pobl i synhwyro am fetel yng Ngerddi Fictoria oherwydd pryderon iechyd a diogelwch gan fod yr ardal yn lle picnic i deuluoedd a lle chwarae i blant.

2. Cais gan y Clerc a phreswlydd i fenthylg y system PA ar gyfer noson gymunedol meic agored yn Split Willow. Bydd y Clerc yn bresennol ac yn goruchwyllo defnydd o'r offer. Cytunodd pawb i'r offer gael ei ddefnyddio.

#### 226. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Cyfarfod Diffibriliwr – Mae'r Clerc wedi cyfarfod gydag Ambiwylans Cymru a Chaffi Seagrass i benderfynu ar safle ar gyfer y diffibriliwr newydd. Mae'r Clerc wedi anfon argymhellion at y Clwb Hwyllo ac yn aros am hysbysiad ffurfiol i barhau gyda phethau. Nodwyd bod Pwyllgor y Clwb Hwyllo wedi cyfarfod ar ddydd Mawrth ac wedi cytuno bod popeth i'w weld yn iawn.  
Y Clerc i anfon e-bost unwaith eto er mwyn cael cytundeb ffurfiol ysgrifenedig.
2. Cyfarfod gyda Thîm Digwyddiadau CBSC – Nododd y Clerc ei fod wedi bod yn gyfarfod cadarnhaol iawn lle nodwyd bod Llanfairfechan ar y map ymysg swyddogion fel cymuned gyda drws agored i ddigwyddiadau newydd. Bu trafodaeth ynghylch Gwyl y Gaeaf, a bu awgrym y gall gwaith pellach ar y cyd fod gyda hyn. Cynigodd CBSC ddigwyddiadau fel digwyddiad Hwyllo Gwynt ym mis Mai ac mae Llanfairfechan yn cael ei ystyried.
3. Cyfarfod gyda chynorthwydd Cyngor Tref Penmaenmawr – syniad da rhannu gwybodaeth er mwyn osgoi dyblygu. Mae gan Benmaenmawr ddigwyddiad mawr wedi'i drefnu ar gyfer y Jiwbilî ar y 3<sup>ydd</sup> o Fehefin. Bydd y tîm o staff yn parhau i gyfarfod i drafod cydweithio.
4. Cyfarfod safle yng Nglan y Môr Elias - Bu iddynt gerdded ar hyd yr holl ardal, ac mae syniadau diddorol wedi'u cyflwyno er mwyn eu cynnwys yn y cais. Mae'r Clerc yn gweithio ar ddod â nodiadau ynghyd o'r cyfarfod a map o'r byrddau dehongli arfaethedig. Yn ogystal â chysylltu â Chlerc Cyngor Tref Penmaenmawr ynglŷn â chysylltiadau ar gyfer contractwyr ar gyfer y gwaith hwn. Bu pryderon ynghylch gwydnwch y llechi panorama. Dylid ystyried deunyddiau eraill.

Penderfynwyd derbyn a nodi

#### 227. Derbyn sylwadau a chanmoliaethau brys

1. Cynghorydd Sir a Chynghorydd Tref yn cydweithio ar ddatrys y broblem gyda'r coed sy'n gorchongian ym Mhen Dalar. Hefyd pryderon am y draen ar ben y ffordd a thipio anghyfreithlon yn Nheras Mona.
2. Mae sylw wedi'i wneud ynglŷn â'r arwydd bws ar Ffordd y Felin a hefyd tipio anghyfreithlon ar Ffordd yr Orsaf.
3. Nant y Berllan – problemau parcio a wal wedi'i difrodi. Mae'r Cynghorydd Sir wedi bod yn bresennol gyda phreswylwyr a bydd yn cysylltu gyda chynghorwyr eraill i edrych ar y problemau.
4. Tipio Anghyfreithlon ym maes parcio Ffordd yr Orsaf – gellir defnyddio camerâu natur gan nad oes angen ffynhonnell drydan arnynt. Y Clerc i gyflwyno'r syniad mewn cyfarfod gyda CBSC.
5. Mae Llanfairfechan Di-Blastig yn trefnu sesiwn hel sbwriel ar ddydd Sul, cyfarfod wrth Eglwys y Santes Fair a Christ am 2yp lle bydd cyfle i dynnu llun i ddatllygu statws newydd Llanfairfechan fel 'Cymuned Di-Blastig'. Llongyfarchiadau i'r Cyng Laura Fielding am arwain ar y gwaith hwn – cyrhaeddiad arbennig mewn cyfnod mor fyr.
6. Nododd y Cynghorydd Sir y bydd y gwaith yn dechrau ar wal y cob ddydd Llun. Mae mynediad arall wedi'i gytuno gyda thirfeddianwyr cyfagos a gall y gwaith fynd yn ei flaen, er bod CBSC yn parhau i aros am drwyddedi moral. Bydd yr holl waith cychwynnol yn waith paratoadol ac nid ar ochr y môr. Mae £405,000 ar gael gan gabinet CBSC er mwyn cwblhau'r gwaith atgyweirio. Mae hwn yn ddarn anodd iawn o waith oherwydd y dryswch o ran perchnogaeth tir y cob. Mae'r Cynghorydd Sir wedi helpu i ddatrys y broblem mynediad sydd wedi helpu ac mae CBSC wedi gwneud eu gorau i wneud hyn yn sydyn.
7. Nododd y Cynghorwyr Sir bod ychydig wybodaeth bod safle'r Heath efallai am gael ei ailddatblygu er mwyn codi tai cymdeithasol. Mae'r cwestiwn wedi codi ynghylch cyfleoedd rhentu canolraddol i deuluoedd sy'n gweithio ar incwm isel ac mae'r syniadau ar eu camau cynnar. Mae'n debyg mai'r cynllun ydy dymchwel ac ailadeiladu ond nodwyd y buasai hefyd modd addasu'r adeilad.
8. Bydd CBSC yn mynd i'r afael â draenio ym Mharc Crescent sydd wedi plesio'r preswylwyr. Yn debyg iawn i lawer o rannau eraill o Lanfairfechan, mae problemau parcio, yn arbennig lle mae'n rhwystro mynediad i breswylwyr hyn.

9. Adleisiodd Cynghorydd y dylid aildefnyddio safle'r Heath yn addasol – yn amgylcheddol byddai hyn yn ddewis llawer gwell na dymchwel yr adeilad presennol. Penderfynwyd derbyn a nodi

Daeth y cyfarfod i ben am 9:16yh Cyfarfod nesaf: Cyfarfod y Cyngor Tref Nos Fercher 16<sup>eg</sup> o Fawrth 2022 am 7yh

Mae cyfarfod hybrid wedi'i drefnu ac mae modd i Aelodau Etholedig fynychu Siambr y Cyngor neu ymuno dros ZOOM.

DRAFT